Rydw i'n falch iawn eich bod yn ystyried gwneud cais am rôl fel aelod o Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun yn PackUK.

PackUK yw Gweinyddwr y Cynllun ar gyfer y cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu (pEPR). Mae'n rhan o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sy'n cynnal PackUK ar ran pedair gwlad y DU.

Mae pEPR yn rhan o gynllun uchelgeisiol i leihau faint o ddeunydd pacio sy'n anodd ei ailgylchu neu na ellir ei ailgylchu, trwy osod ardoll ar gynhyrchwyr a thrwy ddefnyddio'r ardoll hon i ariannu awdurdodau lleol i ddarparu atebion rheoli gwastraff effeithlon ac effeithiol ar gyfer gwastraff pecynnu.

Mae bod yn aelod o'r Grŵp Llywio yn gyfle unigryw i fod ar flaen y gad o ran un o ddiwygiadau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol y DU. Fel aelod, byddwch yn darparu adborth gwerthfawr, argymhellion a chyngor technegol a fydd yn cyfrannu at uchelgais y DU i drawsnewid i economi gylchol ac i gyflawni sero net.

Nid yw'r angen am gynllun pEPR effeithiol sy'n symud cost rheoli gwastraff pecynnu cartrefi i gynhyrchwyr erioed wedi bod yn bwysicach. Mae lansio PackUK yn nodi cam cyffrous ymlaen wrth gyflawni hyn. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio'n agos ar draws y pedair gwlad, cynhyrchwyr a rhanddeiliaid ar draws y gadwyn werth casglu a phecynnu.

Gyda'i gilydd, mae gan y pedair gwlad uchelgais i gyflwyno cynllun pEPR teg a chydweithredol sy'n mynd i'r afael â heriau gwastraff pecynnu ac yn gosod y sylfaen ar gyfer dull mwy cynaliadwy a chyfrifol o becynnu yn y dyfodol.

Os ydych chi wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth yn y ffordd rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio deunyddiau pecynnu wrth adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy, ac os oes gennych chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gyfrannu at y grŵp cynghori hanfodol hwn, darllenwch ymlaen i ddarganfod beth mae'n ei olygu.

**Dr Margaret Bates**

**Pennaeth PackUK**